Profiad Eco

http://www.gwirfoddoli.co.uk/profiadeco

## PROFIAD ECO ENKOSINI



Mae Profiad Eco Enkosini yn cynnig cyfle unigryw i wirfoddolwyr sy'n gallu cynnal eu hunain yn ariannol i weithio yn Ne Affrica a Namibia ar raglenni cadwraeth, ailgartrefu ac ymchwil. Gall rhaglen cadwraeth bywyd gwyllt o'r fath newid bywyd y gwirfoddolwyr. Mae'r rhaglenni yn amrywio o 1 i 12 wythnos a rhoddant gyfle i'r gwirfoddolwyr brofi amrywiaeth o weithgareddau fel gwrth-botsio, ymchwil i fywyd gwyllt, ail gyflwyno anifeiliaid i'w cynefin, adfywio'r prysglwynni a gofalu o ddydd i ddydd am y gwarchodfeydd.

Sefydlwyd Profiad Eco Enkosini yn 2003 ac mae'n rhoi cyfle i'r gwirfoddolwyr lenwi eu calonnau, meddwl ac ysbryd â chariad at gadwraeth. Mae'n cefnogi prosiectau bywyd gwyllt yn ariannol ac yn sicrhau bod digon o bobl yn cydweithio i ddatblygu cymunedau yn Affrica.

Mae staff Profiad Eco Enkosini wedi teithio'n eang ledled De Affrica a Namibia yn hyfforddi, gweithio, gwirfoddoli, astudio a rheoli grwpiau sy'n teithio.

Cewch gefnogaeth lwyr Enkosini cyn, yn ystod ac yn dilyn eich cyfnod fel gwirfoddolwr a chael cysylltiad llinnellau ffôn mewn argyfwng, cydlynwyr yn y maes, hyfforddiant llawn, cyngor annibynnol ar deithio yn Affrica ac yn bennaf oll, tîm profiadol fydd yn gallu ateb eich holl gwestiynau.

Daw ein gwirfoddolwyr o wahanol gefndiroedd – o fyfyrwyr blwyddyn gap i rai sydd eisiau seibiant yn ystod eu gyrfa i bobl sydd wedi ymddeol. Efallai eich bod wedi cyrraedd pen eich tennyn ac am ddianc o ras bywyd bob dydd, efallai eich bod yn ysu am ehangu eich gorwelion mewn bywyd. Beth bynnag fo'r rheswm, Enkoski yw'r ateb i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cadwraeth. Cewch gyfle i gyfrannu at achub ecosystemau cynhenid De Affrica a Namibia gan fwynhau tywydd ardderchog, golygfeydd anhygoel a diwylliant unigryw yr un pryd.